**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB)** |
| **PWNC:** | **CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB) - DYDD MAWRTH, 8 CHWEFROR 2022 DYDD MAWRTH, 8 CHWEFROR 2022** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL: S. HEALY (CADEIRYDD)

Cynghorwyr:
M. Cook (Is-gadeirydd)
D. Bevan
M. Cross
G. A. Davies
G. L. Davies
P. Edwards
K. Hayden
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
C. Meredith
J. Millard
M. Moore
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
K. Rowson
T. Smith
B. Summers
S. Thomas
H. Trollope
B. Willis
L. Winnett
T. Baxter

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb ar gyfer y Cynghorydd P. Baldwin. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **CYLLIDEB REFENIW 2022/2023**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy’n rhoi diweddariad ar setliad darpariaethol cadarnhaol i lywodraeth leol ar gyfer 2022/23 ac effaith hynny ar gyllideb y Cyngor, a gofynnodd am gytundeb ar y gyllideb refeniw fanwl ar gyfer 2022/23 a lefel cynnydd y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023.<br><br>Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo. Y prif gynnydd ar gyfer CBSBG ar ôl caniatáu am drosglwyddiadau oedd 8.4% (£10.4m), o gymharu â chynnydd Cymru gyfan o 9.4%. Mae hyn yn setliad cadarnhaol ac o’i gyfuno gyda’r cyfleoedd a ddynodwyd yn rhaglen Pontio’r Bwlch yn golygu os caiff yr argymhellion yn yr adroddiad eu cytuno y gallai’r Cyngor gytuno ar gyllideb ar gyfer 2022/23.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y dull dysgu cyfunol a gyflwynwyd mewn ysgolion mewn ymateb i bandemig Covid a gofynnodd os yw’r Cyngor yn bwriadu parhau i hunan-gefnogi’r drwydded ac offer TGCh ar gyfer y teuluoedd hynny sydd angen cymorth.<br><br>Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y dynodwyd pwysau cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 | |

yn ymwneud â datblygiadau TGCh mewn ysgolion, a byddai hyn yn elfen i Aelodau ei hystyried yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 17 Chwefror 2022.

Cyfeiriodd Aelod at Atodiad 2, yn neilltuol y pwysau cost o fewn portffolio'r Amgylchedd a gofynnodd os y byddai hyn yn gostwng pe cytunid ar basbortio ffioedd clwydi gwastraff.

Esboniodd y Prif Swyddog fod y pwysau cost o fewn portffolio'r Amgylchedd yn eithrio unrhyw bwysau cost yng nghyswllt ffioedd clwydi gwastraff. Byddai'r pwysau cost o fewn y portffolio yn cynyddu pe na chytunid ar drosglwyddo'r grant ffioedd clwyd gwastraff.

Wedyn cynigiodd Aelod y gwelliant dilynol i Opsiwn 1:

Oherwydd y prif ymgodiad o 8.4%, bod Aelodau yn derbyn Adrannau 3.1.1. i 3.1.6 o Opsiwn 1, ac y dylid **GOHIRIO** penderfyniad ar Adrannau 3.1.7 a 3.1.8 (trosglwyddo unrhyw gyllideb dros ben i'r Gronfa wrth Gefn Gwytnwch Ariannol ac argymhellion am y cynnydd yn y Dreth Gyngor) i ddisgwyl ystyriaeth bellach yn y cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 17 Chwefror 2022.

Eiliwyd y cynnig ac yn dilyn trafodaeth fer cafodd y gwelliant ei gario.

CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i argymell derbyn yr adroddiad a chefnogi Opsiwn 1 wedi'i ddiwygio fel sy'n dilyn:

- Bod Aelodau'n argymell i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor gyllideb refeniw 2022/23 fel y'i dangosir yn nhabl 2 ym mharagraff 5.1.13.

- Bod Aelodau'n nodi'r deilliannau o fewn Setliad RSG darpariaethol cyffredinol ac yn nodi'r potensial am newid pellach yn y Setliad RSG Terfynol (paragraffau 2.7 – 2.17).

- Bod Aelodau'n nodi'r deilliannau o fewn setliad RSG darpariaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac effaith hynny ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol (paragraffau 2.18 – 2.24).

- Bod Aelodau'n argymell i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor y

| | | |
|---|---|---|
| | pwysau cost ac eitemau twf (cyfanswm o £4m) a ddynodir yn Atodiad 2 (paragraffau 5.1.9 – 5.1.12) i'w gynnwys yng nghyllideb y Cyngor.<br><br>• Bod Aelodau'n argymell i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor y dylid pasbortio'r grantiau yn trosglwyddo i'r setliad o £265,000 i'r gwasanaethau perthnasol (paragraffau 5.1.14 – 5.1.18).<br><br>• Bod Aelodau'n argymell i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Cyngor ymgodiad o £3.91m sy'n gyfystyr â chynnydd o 8.4% i'r Gyllideb Ysgolion Unigol (paragraffau 5.1.19 i 5.1.22).<br><br>• Gohirio penderfyniad ynghylch unrhyw gyllideb dros ben o gynigion Pontio'r Bwlch i'w ystyried yng nghyfarfod arbennig y Cyngor ar 17 Chwefror 2022.<br><br>Gohirio penderfyniad ynghylch cynnydd y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23 i'w ystyried mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 17 Chwefror 2022. | |